# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD Y CYNGOR YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MAWRTH 28 TACHWEDD AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry – Cadeirydd
Y Cynghorydd B. Miles – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

E.M. Aldworth, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, D. Cushing, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Gordon, T. Heron, J. Roberts, J. Simmonds, S. Skivens, J. Winslade, a K. Woodland.

Aelodau'r Cabinet:

Y Cynghorydd C. Andrews (Addysg a Chymunedau), E. Forehead (Gofal Cymdeithasol), a J. Pritchard (Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd).

Ynghyd â:

Swyddogion: D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), A. West (Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau i Oedolion), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar), M. Jacques (Swyddog Craffu) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelod Cyfetholedig: Mrs P. Ireland (Undeb Addysg Cenedlaethol).

### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld.

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Bishop ac A. Leonard, a Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mrs K. Cole (Undeb Addysg Cenedlaethol) a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Nodwyd bod un Aelod wedi datgan buddiant personol yn eitem 9 yr agenda.

## 3. CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GYNHALIWYD AR 17 HYDREF 2023.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir, a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023 (cofnodion rhif 1-9) fel cofnod cywir.

## 4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN.

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Rheolwr Craffu yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei Flaenraglen Waith a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024.

Hysbyswyd yr aelodau bod cais wedi dod i law gan Ymddiriedolaeth WAVE ynghylch eu hymgyrch 70/30, sy'n ceisio lleihau cam-drin plant, esgeulustod a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a hoffan nhw i'r Pwyllgor Craffu ystyried gweithredu nodau ac amcanion Ymddiriedolaeth WAVE, lle bo modd.

Eglurodd Aelod nad oedd yr Adroddiad Cyfuno a oedd i'w ddisgwyl yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2024 yn ymwneud â ward Cwm Aber. Hysbyswyd yr Aelodau bod yr adroddiad y cyfeiriodd yr aelod ato yn dal i gael ei drafod ac y byddai'n cael ei restru yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol. Yn dilyn rhagor o drafodaethau ar y mater hwn, hysbyswyd yr Aelod i gysylltu'n uniongyrchol â'r Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnodd yr Aelodau i faint ffont atodiad 1 gael ei chwyddo ar gyfer pecynnau agenda yn y dyfodol, a nodwyd hefyd y dylid cywiro rhai o enwau Aelodau'r Cabinet cyn cyhoeddi'r Flaenraglen Waith.

Cafodd yr aelodau drafodaeth ar Ymddiriedolaeth WAVE a chynnig gohirio'r cais gan Ymddiriedolaeth WAVE i gynnal cyfarfod yn y dyfodol hyd nes y bydd rhagor o wybodaeth ar gael, a chynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy alw'r gofrestr.

Gofynnodd Aelod hefyd i eitem ychwanegol gael ei hychwanegu at y Flaenraglen Waith mewn perthynas â sesiwn friffio gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Hysbyswyd yr Aelodau y gallai Seminar Aelodau fod yn fwy buddiol er mwyn cynnwys pob Aelod.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar yr eitemau ychwanegol a gynigiwyd, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.

PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol fel y'i hatodwyd i bapurau'r cyfarfod, ac yn amodol ar yr eitemau agenda ychwanegol a gynigwyd, ar wefan y Cyngor.

## 6. ADRODDIADAU'R CABINET

Cadarnhawyd na fu unrhyw geisiadau i unrhyw un o adroddiadau'r Cabinet a restrwyd ar yr agenda gael eu dwyn ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

## ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 7. RHAGLEN BAND B CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY – ADRODDIAD YMGYNGHORI: CYNNIG YSGOL Y LAWNT AC YSGOL GYNRADD RHYMNI UCHAF.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau yr adroddiad, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau mewn perthynas â Rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a oedd yn cynnig creu adeilad ysgol cynaliadwy gyda chyfleusterau a rennir ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a defnydd cymunedol. Hysbyswyd yr aelodau y bydd y ddwy ysgol yn parhau i ddarparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac yn parhau fel endidau ar wahân, wedi'u lleoli o fewn yr adeilad deuddiben newydd.

Hefyd, hysbyswyd yr aelodau bod y cynnig wedi bod yn destun ymgynghoriad ffurfiol rhwng 28 Medi 2023 a 9 Tachwedd 2023, ac i gyflawni dyletswydd y Cyngor o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae'n ofynnol nawr i Aelodau'r Cabinet roi sylw dyledus i Adroddiad yr Ymgynghoriad a phenderfynu a yw'n briodol symud i gam nesaf y broses ai peidio.

Holodd Aelod am werth yr adeiladau pan fyddan nhw ar gau, ac a fyddai hyn yn mynd tuag at adeilad yr ysgol newydd. Hysbyswyd yr aelodau nad oedd yr ysgolion wedi cael eu prisio eto, ac y byddan nhw'n datgan nad oes eu hangen nhw ar gyfer dibenion addysgol bellach. Bydd dyfodol yr adeiladau yn cael ei benderfynu yn dilyn y datganiad hwnnw.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cafodd yr Aelodau wybodaeth am gyfraddau ymateb yr ymgynghoriad ac amlygwyd mân wall yn nhabl canrannau'r categorïau ymatebwyr yn yr atodiadau. Rhoddodd swyddogion sicrwydd y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei ddiwygio.

Holodd Aelod a oedd lefel isel yr ymatebion yn nodweddiadol a nododd mai un ymateb yn unig a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg. Hysbyswyd yr aelodau y gellid ystyried hyn yn gadarnhaol, o ystyried bod y bobl sydd fel arfer yn ymateb yn erbyn y cynigion. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod ymgynghoriad llawn wedi'i gynnal.

Gofynnodd Aelod a ellid darparu dadansoddiad o ymatebion rhieni yn nodi pa ysgol oedd eu plentyn nhw'n ei mynychu. Hysbyswyd yr aelodau bod yr wybodaeth hon ar gael ac y byddai'n cael ei dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar gostau perthnasol y cynnig, ac a oedd unrhyw newidiadau wedi bod, ac a oedd cronfa wrth gefn wedi'i chynnwys. Hysbyswyd yr Aelodau bod y ffigurau wedi'u seilio ar wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru hyd nes y byddai profion marchnad wedi'u cynnal.

Gofynnodd y Cadeirydd am ymweliad ag ysgol newydd Cwm Gwyddon, a hysbyswyd yr Aelodau y gellid trefnu hyn yn y flwyddyn newydd ac y byddai gwiriadau i weld pa ddyddiadau sydd ar gael.

Yn dilyn ystyried adroddiad yr ymgynghoriad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 14 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:

1. Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet, trwy bleidlais, i symud ymlaen i Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.

## 8. COD TREFNIADAETH YSGOLION 2018 - ADRODDIAD YR YMGYNGHORIAD: CYNNIG AR GYFER CAU YSGOL FABANOD CWM GLAS.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas erbyn mis Gorffennaf 2024.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, oherwydd bod nifer y disgyblion yn yr ysgol yn gostwng, a rhagwelir y bydd yn gostwng ymhellach yn y blynyddoedd i ddod, bod cyfarfod wedi ei drefnu gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol. Cafodd ei gytuno yn y cyfarfod na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb wedi'i mantoli a lefel staffio briodol, felly, gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol i fynd ar drywydd cau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

Hysbyswyd yr aelodau bod y cynnig wedi bod yn destun ymgynghoriad ffurfiol rhwng 28 Medi 2023 a 9 Tachwedd 2023, ac i gyflawni dyletswydd y Cyngor o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae'n ofynnol nawr i Aelodau’r Cabinet roi sylw dyledus i gynnwys Adroddiad yr Ymgynghoriad a phenderfynu a yw’n briodol symud i’r cam nesaf yn y broses ai peidio.

Ceisiodd Aelod eglurhad o ran yr ymatebion a gafwyd a nododd fod canran uchel o'r ymatebion hynny yn erbyn y cynigion, ond roedd yr adroddiad yn nodi bod tystiolaeth yn dangos bod lefel gadarnhaol o gefnogaeth. Hysbyswyd yr aelodau, lle bo cynnig yn cynnwys cau ysgol, y byddai lefel uwch o ymatebion yn gwrthwynebu'r cau fel arfer.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cafodd yr Aelodau wybodaeth am gyfraddau ymateb yr ymgynghoriad, lefel y gefnogaeth i'r cynnig, ac amlygwyd mân wall yn nhabl canrannau'r categorïau ymatebwyr yn yr atodiadau. Rhoddodd swyddogion sicrwydd y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei ddiwygio.

Holodd Aelod ynghylch nifer y disgyblion sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd a dywedwyd wrth yr Aelodau bod 33 o ddisgyblion yn yr ysgol, sydd i fod i ostwng i 24 ym mis Medi 2024.

Roedd yr Aelod Cyfetholedig sy'n cynrychioli'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn dymuno nodi ei diolch am y cymorth sy'n cael ei roi i'r staff sy'n gweithio yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Nododd Aelod y byddai’r cynnig i gau’r ysgol yn golygu y gallai’r plant hynny sy'n cael eu heffeithio arnyn nhw fynychu ysgol arall lai na milltir i ffwrdd.

Yn dilyn ystyried adroddiad yr ymgynghoriad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 15 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:

1. Cymeradwyo’r argymhelliad i'r Cabinet, trwy bleidlais, i symud ymlaen i Hysbysiad Statudol mewn perthynas â’r cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas erbyn mis Gorffennaf 2024

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI AR GYFER 2022/23.**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol yr adroddiad, a oedd yn hysbysu'r Aelodau o'r negeseuon allweddol a nodwyd wrth baratoi Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar gyfer 2022/23. Gofynnwyd i'r aelodau nodi cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwr cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 29 Tachwedd 2023 i'w gyhoeddi.

Hefyd, rhoddodd y cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai gyflwyniad i'r manylion a gynhwyswyd yn yr adroddiad a dymunodd nodi ei ddiolch i'r holl staff sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

Hefyd, rhoddodd Aelod ddiolch i staff gofal cymdeithasol, a holodd a oedd gofalwyr y GIG yn cael tâl uwch na'r rhai a gyflogir gan yr awdurdod lleol. Hysbyswyd yr aelodau ei bod yn anodd cymharu'r gwahanol rolau ond bod gweithwyr y GIG yn cael tâl uwch yn gyffredinol.

Ceisiodd Aelod eglurhad o ran nifer y bobl sy'n aros am ofal a phecynnau gofal, a sut mae'r rhain yn cael eu blaenoriaethu i benderfynu pwy sy'n cael y gofal. Hysbyswyd yr aelodau bod y ffigurau hyn wedi gwella ers llunio adroddiad blynyddol 2022/23.

Eglurodd y Cadeirydd fod Dewis wedi'i sefydlu a'i fod ar gael ar y rhyngrwyd. Hysbyswyd yr aelodau bod Swyddog Dewis penodedig yn gweithio yn y tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Dymunodd y Cadeirydd nodi'r ganmoliaeth a'r diolch i'r holl staff gofal cymdeithasol. Roedd Aelod arall yn dymuno canmol gwaith gweithwyr cymdeithasol.

Ceisiodd y Cadeirydd eglurhad o ran y ffaith bod 50% o'r rhai sy'n gadael gofal yn mynd ymlaen i addysg uwch neu hyfforddiant, a holodd am y 50% arall. Hysbyswyd yr aelodau bod cyswllt yn cael ei gadw gyda phawb sy'n gadael gofal a bod cyfrifoldeb statudol yr awdurdod lleol yn dod i ben wrth iddyn nhw gyrraedd 21 oed, ond gall hyn godi i hyd at 25 oed os ydyn nhw mewn addysg neu hyfforddiant.

Awgrymodd Aelod y gallai rhai Aelodau gyfarfod â gofalwyr maeth os yn bosibl. Hysbyswyd yr Aelodau bod grŵp cymorth rheolaidd ar gyfer gofalwyr maeth y gellid gwahodd Aelodau iddo yn y dyfodol.

Diolchodd Aelod i'r Swyddogion am yr adroddiad a gofynnodd am eglurhad o ran yr amserlenni ar gyfer addasiadau tai a oedd yn caniatáu i breswylwyr ddychwelyd adref o ysbytai. Hysbyswyd yr Aelodau mai'r Adran Tai sy'n gwneud yr addasiadau mawr a bach hyn ac y gellid cael yr wybodaeth angenrheidiol i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys yr adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 6.50pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau a gytunir a'u cofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 30 Ionawr 2024.

____________________

CADEIRYDD